



GAIR GAN Y GWEINIDOG: FFYDDLONDEB A GOBAITH

SBECTOL BROFIAD

Wrth i ni agosáu at y Pasg, rydym yn paratoui i ailddweud hanes digwyddiadau'r Wythnos Fawr, ac ar un olwg, yr un yw'r stori bob blwyddyn. Ond eto, nid yr union yr un dweud na'r un deall fydd o'r stori eleni oherwydd fe fyddwn ni'n adrodd dwy stori, stori Iesu a'n stori ni heddiw ac mae'n stori ni'n newydd. Petai chi wedi dadlau gydag un o artistiaid clasurol yr Eidal 'slawer dydd na ddylai baentio'r Croeshoeliad gan fod cymaint o artistiaid wedi gwneud hynny o'i flaen, mi fyddai wedi edrych yn hurt arnoch chi eich bod mor ddi-dddeall o ba mor bwysig ydy hanes y Croeshoeliad a pha mor bersonol yw natur y dweud. Mi fyddai ei ddewis o liwiau, y dehongliad o'r emosiwn ar wynebau'r cymeriadau yn unigryw i'r artist wrth iddo geisio cyfleu hen, hen stori drwy sbectol ei brofiad ei hun.

TYSTION AC ACTORION

Er i'r Wythnos Fawr a'r Pasg cyntaf ddigwydd dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, wrth ailddarllen yr hanes rydym fel petaem yn dod yn llygad-dystion sy'n cerdded gyda Iesu ac yn ail-fyw'r cyfan: cymdeithas yr oruwch ystafell, ing a brad Gardd Gethsemane, gwawd a phoen dirdynol y croeshoelio, aros heb wybod y Sadwrn a syndod a rhyfeddod yr Atgyfodiad ar y Trydydd Dydd. Ar ddydd Gwener y Groglith eleni, bydd eglwysi dinas Bangor yn trefnu drama stryd i dystio i stori ryfeddol y Pasg Cyntaf a bydd unigolion gwahanol yn portreadu Iesu a'r disgyblion, Peilat a'r milwyr. Fe fydd y rhai sy'n cymryd rhan yn actorion yn ogystal â thystion ac, mewn ffordd o siarad, rydyn ni i gyd yn cael ein gwahodd i ofyn beth yw ein rhan ni yn y stori. Ai tystion ffyddlon ydan ni neu bobl sy'n rhedeg i ffwrdd pan fydd pethau'n anodd? Ydyn ni'n driw i Iesu neu ydy'n ffordd o feddwl a gweithredu yn ei fradychu?

ARLUNWYR

Yn ogystal â bod yn dystion ac actorion, fe gawn ni'n gwahodd hefyd, fel yr arlunwyr, i ddeall stori Iesu drwy sbectol ein profiad ni ein hunain a'r bobl o'n hamgylch. Drwy'r byd, gwyddom fod 'na bobl sydd wedi colli anwyliaid, rhai sy'n dioddef salwch neu'n gofalu am gleifion sy'n medru derbyn cysur wrth uniaethu gyda'r Iesu dioddefus ar y Groes. Gwyddom yn ein byd helbulus am gynifer o bobl sydd wedi eu dal rhwng y Groglith a'r Pasg - yn disgwyl yn eiddgar i ryfela ac anghyfiawnder beidio â bod - ac yn gallu uniaethu gyda'r disgyblion wrth iddyn nhw aros yn nhywyllwch y Sadwrn hwnnw. A gwyddom ein bod ni i gyd yn ymgodymu gyda phob math o frwydrau yn ein bywyd bob dydd, ac am y profiad o weddio am weld eu datrys ac am weld goleuni a gobaith Crist yn eu trechu.

DARLUN A DYFALBARHAD

Yn ddiweddar, cyflwynais gopi bach o lun sy'n agos iawn at fy nghalon sef 'The Road to Emmaus' gan Daniel Bonnell (artist cyfoes o'r Unol Daleithiau) fel rhodd i Eglwys Emaus a'r bwriad ydy ei arddangos yn y festri fel y gall aelodau ac ymwelwyr gael y cyfle i'w weld. Mae'r llun yn darlunio'r hanesyn yn Efengyl Luc am y ddau ddisgybl yn cerdded o Jerwsalem i Emaus

ar Sul y Pasg yn ddigalon oherwydd digwyddiadau erchyll y Groglith ond yn dychwelyd yn llawn gobaith i Jerusalem i ddathlu gyda'r lleill. I mi, mae'r llun yn cyfleu llawer am ein taith fel unigolion ac fel eglwys ac am ddewrder a dyfalbarhad cymaint o bobl y gwyddom amdany'n nhw sy'n dal ati drwy anawsterau bywyd. Mae 'na dywyllwch stormus yn y llun ond mae 'na goridor o olau hefyd sy'n creu llwybr llachar. Ar y llwybr yna mae 'na dri ffigwr na fedrwn ni weld eu hwynebau nac unrhyw fanylion eraill amdanynt ond gwyddom mai Iesu sydd yn y canol, a'n bod ni yno yn y llun yn cerdded gydag ef a bod 'na frawd neu chwaer yn cerdded gyda ni. Pa bynnag mor anodd ydy'r daith, mae gwybod ein bod yn ei chydgerdded gyda Christ a chyda'n gilydd yn cynnig gobaith a hyder newydd i ni. A'r Pasg yma, gwyddom fod 'na gleifion a gofalwyr ar y daith, bod ffoaduriaid rhyfel gyda ni ar y daith, a ffermwyr sy'n dioddef effeithiau Newid Hinsawdd ym mhen draw'r byd yn gwmni i ni. A'r hyn sy'n hollbwysig ydy cadw'n agos at Grist, concwerwr anawsterau ac angau ei hun ac i ddyfalbarhau ar y daithgda'n gilydd gyda ffyddlondeb a gobaith.

Catrin M Jones



“The Road to Emmaus
gan
Daniel Bonnell”

“Y gweinidog
yn cyflwyno copi o
**The Road
to Emmaus**
gan Daniel Bonnell
i Catrin Evans
fel rhodd
i Eglwys Emaus
ar benwythnos
dathlu Masnach Deg
ym Mangor”



MAIR, GWRAIG CLOPAS

Paratowyd ar gyfer cyfarfod Pasg "Cefnogi Gweinidogion" UBC ar Dydd Gwener, Mawrth 17eg

Y cymeriad 'rydw i wedi dewis son amdani yw Mair, gwraig Clopas, un o'r gwragedd a oedd yn llygad-dystion i'r Croeshoeliad. Fel llawer o ferched y Beibl caiff ei disgrifio yn bennaf drwy ei pherthynas a dynion: fel gwraig Clopas, yn Efengyl Ioan, ac fel mam i Iago Fychan a Joseff neu Joses ym Mathew a Marc. Ond mae hi hefyd yn un o dair Mair oedd yn sefyll gerllaw croes Iesu: Mair Magdalen a Mair, mam Iesu, yw'r ddwy arall wrth gwrs. I ni mae braidd yn chwithig bod tair merch yn rhannu'r un enw ond nid felly i Iddewon yr oes honno. Mair oedd yr enw benywaidd mwyaf poblogaidd yn Israel a hynny oherwydd enwogrwydd Miriam, chwaer Moses. Fedra i ddeall hynny gan fod gennyf innau enw cyffredin iawn ac y mae sawl Eleri arall yn aelod yn eglwys Emaus!

Felly mae Mair yn un o ddisgyblion Iesu ac yn rhan o'r grŵp o ferched a'i ddilynodd o Galilea i Jerwsalem. Wyddom ddim mwy na hynny amdani gan mai dyma'r unig gyfeiriad ati yn y Beibl. A dyna pam rydw i wedi ei dewis hi. Mae gan y ddwy Fair arall rhan llawer pwysicach yn hanes Iesu, un yn fam iddo a'r llall yn dyst i'w atgyfodiad. Ond mae Mair, gwraig Clopas, yn ferch dinod, a'i hunig ran yw fel llygad-dyst i'r Dioddefaint. Fe allwn ddychmygu ei bod yn bresennol gyda'r disgyblion eraill pan ymddangosodd yr Iesu Atgyfodedig iddynt ac wedyn yn yr oruwch ystafell pan ddaeth yr Ysbryd Glân ond 'does dim sicrwydd o hynny. Dim ond ei bod hi yno wrth y groes ar y diwrnod erchyll hwnnw, llawn gofid wrth weld ei hathro annwyl yn marw mewn ffordd mor ofnadwy.

Fel llawer ohonoch chi, rydw i wedi ymweld â phobl ar eu gwely angau, y ddau ohonom yn gwybod na fyddwn yn cwrdd eto ar dir y byw. Cefais y ffrainc hefyd, gyda fy chwaer, o ofalu am fy mam yn ei dyddiau olaf a gwneud yn siŵr ei bod yn marw'n gyffyrddus a di-boen. Ond ni fŷm erioed yn llygad-dyst i ddiennyddiad erchyll fel hyn na chwaith yn gweld rhywun yn marw'n greulon a phoenus o araf. Efallai eich bod chithau fel finnau yn methu dychmygu artaith meddwl Mair a'r gwragedd eraill yn y fath sefyllfa, yn gweld rhywun roeddent yn ei garu mewn cymaint o boen ac yn methu gwneud dim i'w leddfu.

Ond 'dyw hynny ddim yn wir yn union nac ydi? Heddiw, drwy gyfrwng teledu a'r papurau newydd, rydym i gyd yn llygad-dystion i ddioddefaint a marwolaeth pobl ddiniwed - yng Ngogledd Syria a De Twrci, yn Yemen ac Iwcrain, yn Iran ac Afghanistan a sawl ardal arall anffodus ein byd. Nid yn unig dramor chwaith: mae'r argyfwng costau byw a'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd wedi gadael sawl person mewn adfyd a thrallod yma yn Ynysoedd Prydain. A hynny i gyd heb anghofio am ddyddiau du'r pandemig COFID-19 a'r gwaddol o alar a phoen mae o wedi adael ar ei ôl.

Hawdd iawn ildio i'r temtasiwn i droi ein llygaid i ffwrdd oddi wrth y dioddefaint o'n cwmpas a pheidio sylwi ar y rhai mewn poen, yn enwedig gan mai dieithriad ydynt. Drwy drugaredd, meddwn, mae'n hanwyliaid ni yn iach a dianaf, yn byw mewn heddwch a diogelwch. Os ydynt yn cael eu hunain mewn adfyd fe allwn eu helpu. Ond mae Mair, gwraig Clopas, yn ein hatgoffa i beidio troi i ffwrdd, i beidio cau ein llygaid. Fel hithau rhaid i ninnau fod yn llygaid-dystion i ddioddefaint a phoen a chyd-sefyll mewn cydymdeimlad a'r rhai sydd mewn trallod enbyd. Wrth gwrs, gallwn wastad eu cadw mewn gweddi gerbron Duw a'u cynorthwyo yn ariannol os yn bosibl. Ond bod yn llygad-dystion sy'n bwysig.

Ac un pwynt arall cyn gorffen. Fe ddaeth diwedd ar y Dioddefaint ymhen ychydig oriau ac wedi sylwi ar le claddwyd corff Iesu, aeth Mair a'r gwragedd eraill adref. Er ei bod ymysg y merched a ddarganfyddodd y bedd gwag, nid ydym yn gwybod o sicrwydd iddi weld yr Iesu Atgyfodedig na derbyn yr Ysbryd Glân adeg y Pentecost. Ond mae'r pedair Efengyl yn crybwyll ei henw hi a daeth ei meibion yn ôl y sôn yn arweinwyr yn yr Eglwys Fore. Mae hynny'n awgrymu i mi ei bod wedi parhau yn ddisgybl i Iesu ar hyd ei hoes ac yn aelod o'i eglwys. Efallai ei bod wedi adrodd hanes y Dioddefaint sawl gwaith nid yn unig wrth ei meibion ond hefyd i'w chyd-aelodau nad oeddent yno ar Golgotha ar y diwrnod ofnadwy hwnnw. Dyna yw swyddogaeth llygad-dyst onide? Dweud wrth bawb, ie mae o'n wir, fe ddaru'r Meseia farw ar y groes oherwydd roeddwn i yno yn gweld y cwbl. Nid cogio marw wnaeth Iesu ond marw go iawn. Fe ddigwyddodd y Dioddefaint yn union fel hyn...

Ac y mae gennym ni swyddogaeth debyg fel llygad-dystion i ddioddefaint ein byd. Mae sylw'r wasg a'r cyfryngau torfol yn troi o hyd at ddigwyddiadau newydd: mae rhai unigolion a llywodraethau anonest o hyd yn gobeithio bydd pobl yn anghofio'r boen a'r trallod a fu. Mae rhai hyd yn oed yn barod i daeru nad felly oedd pethau mewn gwirionedd, mai newyddion ffug yw'r cwbl! Ond os ydym yn llygad-dystion i ddioddefaint mae gennym ninnau ddyletswydd i'w gadw mewn cof ac atgoffa pobl ohono os oes rhaid. A ddyletswydd hefyd i barhau i weddïo a sefyll mewn

cydymdeimlad gyda phawb mewn cyfyngder, hyd yn oed os yw gweddill y byd wedi ei anghofio.

GWEDDÏWN:

O Arglwydd Iesu, gweddïwn dros bawb yn ein byd ni heddiw sydd yn dioddef corff ac enaid a hwythau'n ddiniwed. Diolchwn am lygaid i weld a chalonnau i gyd-ymdeimlo gyda hwy yn eu galar a'u poen. Diolchwn hefyd am rai fel Mair, gwraig Clopas, sydd yn barod i gyd-sefyll gyda dioddefwyr a thystio i wirionedd eu gofid gerbron byd sydd mor barod i'w anghofio a'i ddiystyru. Cynorthwya ninnau i wneud yr un peth a dyro inni nerth i barhau i fod yn ddisgyblion ffyddlon i ti ar waethaf pob adfyd.

Amen

Eleri Jones



Mosaic yn dangos y tair Mair ger y groes o fynachlog hynafol Nea Moni, Chios, c1100 OC

OEDFAON A CHYFARFODYDD EBRILL

Bore Sadwrn, 1 Ebrill 10 tan 12

Bore Coffi Masnach Deg

Bore Sul, 2 Ebrill, Sul y Blodau

Oedfa gymun dan arweiniad y gweinidog

Nos Iau Cablyd, 6 Ebrill, am 7pm

yn y festri dan arweiniad y gweinidog

Bore Sul, 9 Ebrill,

Oedfa Sul y Pasg pob oed dan arweiniad y gweinidog

Bore Sul, 16 Ebrill

Oedfa dan arweiniad y Parchedig Robin Samuel

Pnawn Mawrth, 18 Ebrill

Cyfarfod 'paned a sgws' o 3 tan 4

Bore Sul, 23 Ebrill

Oedfa dan arweiniad y Parchedig Jill Tomos

Bore Sul, 30 Ebrill

Oedfa dan arweiniad y gweinidog



**Casglwyd £480
i Gymorth Cristnogol
at achos daeargryn
Syria a Thwrci,
ar ben y cyfraniadau
a anfonwyd
yn uniongyrchol.**

Diolch i bawb a gyfrannodd.

RHAGLEN Y PASG GAN CYTŪN BANGOR

Dydd Gwener Y Groglith,

Ebrill 7fed 2023

DRAMA'R DIODDEFAINT

*Ymgynnull am
hanner awr wedi 11 y bore
wrth yr Orsaf Bysiau;
wedyn ymlaen i'r Gofeb Rhyfel
ac yna cerdded i lawr
y Stryd Fawr at y Cloc*

+++

Dydd Sul y Pasg, Ebrill 9fed, 2023

OEDFA AWYR AGORED

*Ymgynnull am 7 y bore
ar ben "Roman Camp".
Brecwast i ddilyn ym Mhenrallt*

CROESO CYNNES I BAWB

DATHLU PYTHEFNOS MASNACH DEG

Er y newyddion trist fod **Traidcraft plc** wedi dod i ben, cafwyd cyfle i ddathlu masnach deg, ac yn arbennig i gofio am yr oll a gyflawnwyd gan **Traidcraft** yn ystod y 44 mlynedd diwethaf. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn, a'r festri'n orlawn a byrlymus o 10 o'r gloch y bore tan 2 y pnaawn. Roedd yn braf cael croesawu Nimrod a Jenipher o Uganda, yn ôl i Emaus. Bu Nimrod yma yn 2019, a Jenipher yn 2020. Pwy all beidio anghofio gwên fawr Jenipher! Mae'r ddau yn ffermwyr coffi ar lethrau uchel mynydd Elgon. Erbyn hyn, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, mae coffi eu cymuned yn cael ei fewnforio i Gymru, ei brosesu, a'i werthu yma. Mae eu coffi organig o safon uchel, ac maent yn derbyn pris teg amdano. Mae ar werth ar ein stondin masnach deg ni.

Cawsom hefyd gwmni nifer o fyfyrwyr o'r Brifysgol, ac fe ddaeth ein prif siaradwraig, Ize Adave a nifer o'i chyfeillion o grŵp Affrica gogledd Cymru efo hi. Gweiniwyd cawl a chacennau masnach deg i dros hanner cant o bobl, ac fe gasglwyd £425 at waith **Transform Trade**.

Diolch o galon i bawb gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y diwrnod arbennig yma.

*Mae'r boreuau coffi a stondin masnach deg yn parhau,
ac fe gynhelir y nesaf fore Sadwrn, 1 Ebrill, o 10 - 12 o'r gloch.*

Catrin Evans



PRYSURDEB Y DIWRNOD



Grace Oni, darlithydd yn Nantwich,
a Sam Njoku, Cyfarwyddwr dros dro
Cymdeithas Affrica gogledd Cymru



Stondin Henny Hare



CATRIN A WESLEY AR BEN EU DIGON



IZE ADAVE - Y SIARADWRAIG,



JENIPHER A NIMROD: HEN GYFEILLION





**JENNY PYE, MASNACH DEG BANGOR, A
KADUN REES, MASNACH DEG CYMRU**



CRIW CIC BANG YN MWYNHAU NOSON O DDRINGO
Dring i fyny yma, dring, dring, dring ...

“O Dad, yn deulu dedwydd ...”

Ar Sul olaf Chwefror, daeth aelodau a chyfeillion i fwynhau cinio gyda'n gilydd. Wrth eistedd ar ffurf sgwâr, roedd y gyfeillach a'r ddarpariaeth wrth ein boddau. Ein diolch i bawb am y gwaith trefnu.



DYDD GWEDDI'R BYD

'Clywais am eich ffydd' oedd thema Dydd Gweddi'r Byd ar gyfer 2023. Roedd y gwasanaeth, a gynhaliwyd ar 3 Mawrth yn Emaus eleni, yn rhan o'r don enfawr o gyfarfodydd gweddi ledled y byd. Dechreuodd wrth iddi wawrio yng Ngorllewin Samoa a Tonga yn y Môr Tawel a gorffen wrth i'r haul fachlud yn Samoa Americanaidd. Bob blwyddyn caiff y gwasanaeth ei ysgrifennu gan ferched Cristnogol o wlad wahanol, a thro Taiwan oedd hi eleni. Dyma wlad sydd wedi'i hynysu'n rhyngwladol ers degawdau, a China yn hawlio mai ei thiriogaeth sofran hi yw Taiwan. Roedd y gwasanaeth yn cynnwys llythyron o anogaeth i ferched sy'n wynebu dioddefaint ac anghyfiawnder, ac yn canolbwyntio ar faterion sy'n gyffredin i ferched ledled y byd ac sy'n dal i herio Cristnigion i weithredu drwy weddi.



Pawb mewn hwyliau da



Cymru a Thaiwan, 'Teyrnas y Tegeirian',
yn ymuno mewn gweddi.



Clywais am eich ffydd

CYMANFA GŴYL DDEWI

Daeth nifer dda ynghyd i'r Gadeirlan ar 1 Mawrth i ddathlu Gŵyl Ddewi mewn man lle safodd Deiniol bron i fileniwm a hanner yn ôl. Roedd y rhaglen yn tynnu sylw at yr hanes gan mai 'ar dir y Gadeirlan, yn y flwyddyn 525, bu i Deiniol gynnwll o'i gwmpas gymuned lawn ffydd, gobaith a chariad, gan godi ffens gyll - y bangor gwreiddiol - iddi'n gysgod ac yn noddfa'.

"Byddwch lawen," meddai Dewi ar ei wely angau tua'r flwyddyn 589, "a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf i."

- Gareth Ffowc



CLAWR RHAGLEN CYMANFA GŴYL DDEWI

Cyfarfod Blynyddol Ddwyieithog y Senana

ADRAN GENHADOL Y CHWIORYDD

3 MAI 2023

Caersalem Caernarfon

Stryd Garnon, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2RB

Cyfarfod Blynyddol 2.00

Tê P'nawn 3.30

Oedfa Nos 5.30

Zenana Bilingual Annual Meeting

WOMEN'S MISSIONARY AUXILIARY

3 MAY 2023

Caersalem Caernarfon

Stryd Garnon, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2RB

General Meeting 2.00

Afternoon Tea 3.30

Evening Service 5.30

Llywyddion / Presidents: Bonni Davies a Menna Machreth

THEMA / THEME

**"Mor weddaidd ar y mynyddoedd
yw traed y negesydd sy'n cyhoeddi heddych."**

**"How beautiful on the mountains
are the feet of those who bring good news."**

Eseia/Isaiah 52:7

Siaradwr / Speaker

Annet Ttendo-Miller, BMS



TE P'NAWN £5

RSVP erbyn 21/04/23 - Menna Machreth

24 Ffordd Eryri, Caernarfon.LL55 2UR

Ffôn : 07973 820580

ebost : mennamachreth@gmail.com

Y GENHADAETH

Anfonwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau da i Menna Machreth ar drothwy dod i lywyddiaeth Senana Cymru. Nodyn i'ch atgoffa fod angen archebu tocyn os ydych yn awyddus i ymuno yn y te. Mae'r manylion ar y poster uchod.

CASGLIAD BLYNYDDOL BMS

Bydd y casgliad yma'n dod i ben ar ddiwrnod olaf mis Mawrth a byddaf yn barod i dderbyn unrhyw gyfraniadau ddydd Sul nesaf. Sicciau'n daladwy i BMS WORLD MISSION. Bydd y casgliad yn cael ei anfon i'r swyddfa yn Didcot cyn y Pasg.


Llawer o ddiolch am eich cydweithrediad parhaus

Siân Arwel Davies

DIWRNOD PAI 14 MAWRTH 2023

Anaml iawn y bydd Diwrnod Pai (ar 14 Mawrth) yn disgyn ar yr un diwrnod ag un o gyfarfodydd misol 'paned a sgwrs'. Rhag ofn nad ydych yn gyfarwydd â Diwrnod Pai, mae'n ddyddiad sy'n dathlu un o'n rhifau pwysicaf a rhyfeddaf. Un o gampau William Jones, mathemategydd o Fôn, oedd cydnabod rhyfeddod y rhif a'i fedyddio yn 1706 gan y symbol π . Erbyn hyn defnyddir y symbol hwn yn rhyngwladol. Gwerth y rhif π yw 3.141592 ... ac ymlaen am byth – ie, am byth!

Ers 1988 mae 14 Mawrth wedi cael ei ddynodi'n ddiwrnod rhyngwladol i ddathlu π , yr arferiad wedi cychwyn yn yr Unol Daleithiau. Yno, mae'r dyddiad 14 Mawrth yn cael ei ysgrifennu **3/14**, yn groes i'r arferiad ym Mhrydain. I gydnabod y cysylltiad Cymreig dynodwyd 14 Mawrth yn **Diwrnod Pai Cymru** gan Lywodraeth Cymru yn 2015, ac mae dathlu mawr yn digwydd ar y diwrnod hwnnw, dathlu sydd yn aml yn cynnwys bwyta peis o bob math! Ac felly y bu yn y cyfarfod '*paned a sgwrs*' ar 14 Mawrth eleni, gyda peis bach blasus yn ychwanegu at y danteithion eraill, a phawb yn clodfori William Jones am ei gamp. Mae llyfr Gareth Ffowc, **Cyfri'n Cewri**, yn cynnwys pennod gyfan am William Jones, a phennod arall am y rhif rhyfeddol π .





ATEB I BOS MAWRTH 2023

POS DIGIDAU

23421314 ei wrthdro 41312432

POS EBRILL 2023

POS DIGIDAU




Cyfanswm y tri rhif 1, 2 a 3
yw 6.

Cewch 6 hefyd
wrth luosi'r tri rhif.

Fedrwch chi ddarganfod
pedwar rhif
y mae eu cyfanswm
yr un peth â'u lluoswm?

Bydd yr ateb yn rhifyn Mai.



BLODAU MIS EBRILL

Diolch i
Helen Owen a Menna Roberts
am roi'r blodau
yn ystod mis Mawrth

**Y DREFN
AR GYFER MIS EBRILL FYDD;**

**Ebrill 2il a'r 9fed
Siân Arwel**

**Ebrill 16eg a'r 23ain
Branwen Jarvis**

**Ebrill 30ain
Alison Carden**

Diolch i bawb sydd wedi llenwi'r daflen
tan ddiwedd y flwyddyn.

Mae rhestr ar gyfer 2023 yn y cyntedd
neu mae croeso i chi gysylltu
gyda Kath neu Meriel.

Kath Jones - **01248 353313**
Meriel - **01248 352205**
neu - **merielparry@gmail.com**

-- Meriel Parry



DATHLIAD GWŶYL DEWI



Braf yw adrodd bod na gyfeillion o'r Wcrain a'u cefnogwyr yn dal i ddod i festri Emaus ar nosweithiau Mercher i gymdeithasu ac i fwynhau gweithgareddau crefft dan nawdd Pobl i Bobl. Ar nos Fercher Mawrth y 1af, cynhaliwyd noson arbennig i roi 'chydig o flas ar

iaith a diwylliant Cymru i'n hymwelwyr. Rhoddwyd ychydig o hanes Dewi Sant gan Eysyllt Bryn a chafwyd cyfle hefyd i flasgu Pice ar y Maen neu welshcakes. Ein gwestai gwadd oedd Valerie Ellis fu'n ein diddanu gyda nifer o alawon gwerin cyfarwydd ar y piano ac yn cyfeilio i'r sesiwn ganu a dawnio gwerin a ddilynodd. Roedd y cyfeillion o'r Wcrain yn rhai da am ymuno yn y gân, chwarae teg iddyn nhw, a braf oedd eu clywed yn canu **"Migldi Magldi hei now now!"** gydag arddeliad! Cyn cloi, roedd rhaid canu **"Dros Gymru'n gwlad"** sy'n cael ei hystyried gan rai fel ail anthem genedlaethol Cymru. Tra bod **"Hen Wlad fy Nhadau"** yn cofio'r "gwrol ryfelwyr", mae geiriau Lewis Valentine yn cyfeirio at Gymru fel "Gerddi Crist" lle dymuna'r bardd weld y pethau gorau'n tyfu. Ein dymuniad ni oll ar gyfer yr Wcrain, ydy gweld y pethau gorau fel cariad a brawdgarwch a heddych yn cael y cyfle i dyfu yno unwaith eto ac i weld yr ymladd a'r dinistr yn peidio.



NODER: Os oes gennych dŷ i'w osod ar rent sy'n wag ar hyn o bryd neu y gwyddoch am rywun sy'n chwilio am denantiaid, mae Eysyllt Bryn o Pobl i Bobl yn awyddus i glywed ganddoch gan eu bod ar hyn o bryd yn chwilio am lety i deulu estynedig o saith ffoadur o Affganistan a bod nifer o Wcraniaid yn dal heb lety pan fydd y ganolfan groeso leol yn cau yn fuan. (esbryn@outlook.com)





I'R UDA AC YN ÔL

Ym mis Chwefror cafodd Lisa (Morgan) a finnau a dros hanner cant o ddisgyblion Ysgol Tryfan gyfle bythgofiadwy i hedfan dros yr Iwerydd i'r Unol Daleithiau. Aethom o Heathrow i ganol bwrlwm Efrog Newydd, a threulio amryw ddiwrnod penigamp yno yn ymweld â nifer o safleoedd nodedig megis y Statue of Liberty, adeilad yr Empire State a chofeb 9/11. Ar ôl tridiau o ddifyrrwch, teithio tua'r de i Philadelphia gan ymweld â'r Liberty Bell a charchar enwog yr Eastern State Penitentiary, cyn mynd yn ein blaenau i'r brif ddinas, Washington DC. Buom yno am dridiau olaf ein taith, a chawsom weld y Tŷ Gwyn, y Capitol ac ystod ddeniadol o amgueddfeydd. Roedd hi'n daith hanesyddol a agorodd ein llygaid i ddiwylliant bywiog UDA - y cyfan yn frith o brofiadau gwerth chweil. Pe bai rhaid i mi ddewis hoff ran o'r daith, roedd yr olygfa ogoneddus o ben adeilad yr Empire State yn un na allaf ei hanghofio, a hoff ran Lisa oedd ein hymweliad â'r National Museum of African American History. Diolch i'n hathro, Meurig Jones, am drefnu'r daith.

- Guto Elis




Guto a Lisa gyda gweddill y disgyblion yn chwifio'r Ddraig Goch yn Washington D.C. gyda chofgolofn George Washington, Arlywydd cyntaf UDA, yn y cefndir.






CROESO I Pasg Berea



Bore hwyl i'r teulu cyfan ddathlu hanes
Y Pasg drwy gemau, crefft a mwy.



DYDD SADWRN, EBRILL 8, 2023, 10 YB - 12.30 YH
CAPEL BERE A NEWYDD



Dewch a phecyn bwyd

TO REGISTER: ANDREW.SETTATREE@EBCPCW.CYMRU

[HTTPS://WWW.EVENTBRITE.CO.UK/E/PASG-BERE A-TICKETS-595733383587](https://www.eventbrite.co.uk/e/pasg-bera-tickets-595733383587)

*Mae ein diolch yn fawr eto
y mis yma
i Gareth Ffowc
am ysgogi cyfranwyr,
casglu a golygu'r rhifyn yma.*

*Dylid gyrru eitemau
ar gyfer rhifyn Mai
i olygyddion y rhifyn,
Siân Arwel a Branwen Jarvis,
erbyn 23 Ebrill,
os gwelwch yn dda.*

e-bost: arwelfa@hotmail.co.uk
ffôn: 713464

gyda chopi (cc) i'r Negesydd
e-bost: negesydd@btinternet.com

BUGEILIAID STRYD BANGOR

Ar ôl pedair blynedd yn y swydd mae Mark a Carina King yn rhoi gorau i fod yn Gyfarwyddwyr y grŵp ar ddiwedd Mawrth. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu holl waith caled mewn cyfnod anodd. Rydym yn ddiolchgar iawn i Teresa Ryan am wirfoddoli i gymryd eu lle. Ferch o ardal Bethesda yw Teresa, yn siarad Cymraeg ac yn aelod o Eglwys Ein Harglwyddes. Mae hi newydd ymddeol o swydd llawn amser fel gweithiwr cymdeithasol, yn gweithio gydag unigolion wedi eu mabwysiadu. Dymunwn bob bendith a rhwyddineb i Teresa yn ei swydd newydd ac edrychwn ymlaen at gyd-weithio yn agosach gyda hi. Os oes gan rywun ddiddordeb yng ngwaith y Bugeiliaid rydym yn trefnu diwrnod o hyfforddiant ar

Ddydd Sadwrn, Ebrill 22ain
yn Emaus o 9.30yb ymlaen.

Nid yw mynychu'r sesiwn yn datgan unrhyw ymrwymiad i fynd ymhellach!

Holwch Eleri Jones am ragor o wybodaeth.

CYFARCHION

*Mae Eirlys Owen, Eithinog, wedi symud o gartref gofal
ym Mhentraeth i Blas Garnedd, Llanfairpwll
Anfonwn ein cofion cynhesaf ati yn ei chartref newydd.*

ANRHYDEDD GYDOL OES

Llongyfarchiadau mawr i Delyth Murphy sydd wedi cael ei hanrhydeddu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ei chyfraniad arbennig i'r meysydd ehangu mynediad a dysgu gydol oes, a'i gwaith yn hybu addysg cyfrwng Cymraeg. Fe'i hurddwyd yn Gymrawd er Anrhydedd y Coleg mewn seremoni arbennig ar 21 Mawrth yng Nghaerdydd. Wrth gael ei hurddo dywedodd Delyth, "Nid pawb sy'n gallu dweud eu bod yn cael cyflog am waith y maent yn ei fwynhau'n aruthrol ond dyma fy hanes i! Rwyf wedi gweld pobl o bob oed - rhai yn eu hwythdegau - yn graddio. Mae yna bwl o bobl Cymraeg eu hiaith y gallem eu denu i addysg uwch ac addysg bellach. Mae angen codi hyder, codi dyheadau a dweud 'Gallwch, mi allwch chi gyflawni'ch breuddwydion!'"